Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

Clerc **Mr R. Arwel Pierce**

**Ffôn:** **01654 711470**
**E.bost:** gwenar@btinternet.com

**Llain y grug**
**Bryncrug**
**Tywyn**
**Gwynedd LL36 9RB**

# Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 21ain Medi 2015 am 7pm

Presennol: Ieu Thomas, Alan Hugh Jones, Simon Jones, Cyng. Bethan Lawton, Arwel Pierce (Clerc), George Evans, Eileen Jones

Ymddiheuriad: Richard Evans (ar wyliau)

1. Eglurodd y Clerc iddi dderbyn llythyr o ymddiswyddiad gan y Cadeirydd Peter Parker. Yn sgil hyn, croesawyd yr Is-gadeirydd Arwel Pierce i arwain yr Agenda

2. Diolchodd yr Is-gadeirydd i Peter Parker am ei waith fel Cadeirydd er mai am gyfnod byr y bu hyn.

3. Estynnwyd cydymdeimlad yr aelodau at Richard Evans sydd wedi colli ei dad yn ddiweddar. Dymunwyd adferiad llwyr a buan i Lynda, gwraig Simon Jones, yn dilyn damwain ddigwyddodd ger ei chartref,

4. Yn dilyn y ffaith nad oedd neb wedi ymgeisio am y Swydd o Glerc i'r Cyngor, eglurodd y Cadeirydd fod angen cymryd y camau priodol o ethol swyddogion er cynnal dilyniant i'r gwaith.
   **Penderfynwyd:** Cadeirydd: Alan Hugh Jones; Is-gadeirydd: Simon Jones;
   Cae Chwarae/Pafiliwn: Alan Hugh Jones; Cofnodion: Arwel Pierce;
   Rheolwr cyllid: Bethan Lawton;

*Nodwyd bod dyddiad cau am y swydd Clerc wedi ymestyn hyd 31/10/15 Oherwydd hynny, gellir ystyried y penodiadau uchod fel rhai dros dro, ac os na fydd ymgeisydd, bydd y drefn yn aros yn ei lle hyd 31/03/16. Cytunodd y Clerc i dderbyn y llythyrau o'r Post a'u rhannu'n ôl y gofyn.*

5. Mynegodd y Cadeirydd ddiolch diffuant yr aelodau i Eileen Jones am waith trylwyr a manwl fel Clerc am dros 21 mlynedd. Gwerthfawrogwyd yn fawr ei phenderfyniad i aros ymlaen hyd y cyfarfod yma er mwyn hwyluso'r gwaith o osod fframwaith rheoli dros dro mewn lle ar gyfer y gwaith.

6. (i) Derbyniwyd cofnodion Gorffennaf 15fed a'u llofnodi.

   (ii) Materion yn codi:
   - Angen newid eitem 7 i ddarllen *Clive* Jones yn lle *Kevin* Jones.
   - Cyng. Bethan Lawton wedi ymgynghori ynglŷn â chyfrifoldebau cynnal y Graig. Rhannau wedi cael eu cofrestru - eraill ddim. Cyng. am gysylltu am fwy o sicrwydd a chadarnhad.

7. **<u>Cae Chwarae;</u>** adroddiad A.H.Jones.
   - Terfynau a'r Pafiliwn yn iawn. Cytunwyd i symud ymlaen i archebu'r hyn sy'n angenrheidiol at drwsio'r swings bach (BL. a AHJ)
     e.e seddau bach £115 + TAW 8 shackle, £3.30 + TAW; 8 cap@ 25c,
     4x cadwyn @ £30.88 + TAW.

- Testio'r plwg: Ansicrwydd a oedd Gareth Roberts wedi bod yn cynnal y prawf
- Cytunwyd i dalu – Playsafety Ltd. £78 (Siec 461); Bwrdd Dŵr £219.53 (Siec 462);
  Ad-daliad i'r Clerc - £110 - Trydan o Ebrill i Fedi 2015 + £6.99 am degell (£116 99 Siec 456).

8. **Llwybrau:** Llwybr tu ôl i Dolithel a'r Ffatri angen sylw. Angen cysylltu hefo Liz Haynes.

9. **Adroddiad y Cynghorydd B. Lawton**: Tynnwyd sylw'r aelodau at gynnwys y Cylchgrawn 'Her Gwynedd' gan nodi'n arbennig drefniadau Cyngor Gwynedd i wynebu her y toriadau. Anogwyd pawb i gymryd rhan yn y trafodaethau.

10. **Gofal a Chadw'r pentref:** Angen trwsio Mainc y Mileniwm. AHJ i gysylltu â Kevin Jones unai i brynu mainc newydd neu drwsio'r un presennol. Mae angen clirio'r mieri'n ddirfawr.

11. **Toiledau cyhoeddus y pentref:** Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Gwynedd yn nodi y byddai angen taliad o £1,780 + TAW i gadw'r toiledau ar agor dros y gaeaf.
    Penderfynwyd yn unfrydol fod y swm yma'n aruchel ac fe wrthodwyd y cynnig .
    Serch hynny, gofynnir i Gyngor Gwynedd ofalu fod arwyddion newydd yn cael eu gosod ar y drysau a bod cyflenwadau cyson o bapur llaw a biniau newydd ar gael.
    Nodwyd nad oedd Grŵp Cynefin am gynnig grant tuag at eu costau.

12. **Cais Cynllunio**: Parc Carafanau Ynys Maengwyn – adeiladu bloc toiledau
    Cytunwyd â'r cais yn unol â phenderfyniad Pwyllgor Safle 08/09/15.

13. **Un Llais Cymru:** Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd.

14. **Hysbyseb swydd y Clerc:** Cytunwyd i dalu bil y Cambrian News - £119.04. (Siec 465)

15. **Cais i Bwyllgor y Ganolfan Gymunedol:** Cadarnhawyd penderfyniad y Pwyllgor Safle 08/09/15 i dalu £50 i'r pwyllgor am rentu sied i storio eiddo'r Cyngor yn dilyn ymddeoliad y Clerc. Hwn i'w dalu ymlaen llaw o 01/10/15.

16. **Taliadau eraill**: Pasiwyd i dalu'r canlynol:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Ganolfan | Llogi Medi | £12.00 | Siec 463 |
| Jones & Jones | Cynnal a chadw Awst | £113.40 | Siec 464 |
| Hacker Young | Archwiliad | £246.00 | Siec 466 |

17. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd £3,504.50 fel rhan o praesept y Cyngor

18. **Apêl Shelter Cymru**; Gadael ar y bwrdd

19. **Unrhyw fater arall:** Nodwyd fod angen ysgubo ffyrdd y pentref. BL wedi cytuno i gysylltu â Robart Lewis Cyngor Gwynedd.

Dyddiad nesaf y Cyngor – Nos Lun 19eg Hydref am 7pm

Ar ddiwedd y cyfarfod cyflwynwyd anrheg a thusw o flodau i Eileen fel cydnabyddiaeth o'i holl waith dros y blynyddoedd. Diolchwyd hefyd i Gwyn, ei gŵr, am fod mor gefnogol iddi. Ategwyd y diolchiadau gan y Cyng. B Lawton a Ieu Thomas.

Cadeirydd ____________________________ Dyddiad ______________________

# Minutes of meeting held on Monday 21st September 2015 at 7pm

Present: Ieu Thomas, Alan Hugh Jones, Simon Jones, Cllr. Bethan Lawton, Arwel Pierce (Clerk), George Evans, Eileen Jones

Apology: Richard Evans (on holiday)

1. The Clerk explained that she had received a letter of resignation from the Chairman, Peter Parker.
As a result, we welcomed the Vice Chairman Arwel Pierce to lead the Agenda

2. The Vice-Chairman thanked him for his work as Chairman albeit this was for a short time.

3. The members extended condolences to Richard Evans, who lost his father recently.
Best wishes were sent to Lynda, wife of Simon Jones, for a speedy recovery following an accident that occurred outside their home.

4. As no one had applied for the post of Clerk of the Council, the Chairman explained the need to sustain the continuity of Council work
**Resolved**: Chairman: Alan Hugh Jones; Vice-Chairman: Simon Jones;
Playground / Pavilion: Alan Hugh Jones; Minutes: Arwel Pierce;
Finance: Bethan Lawton;

*Noted: the deadline for the post of Clerk has been extended until 31.10.15 Therefore, the above appointments can be considered as temporary, and if no one applies, they will remain in place until 03/31/16. The Clerk agreed to accept all letters etc and to distribute as required.*

5. The Chairman expressed sincere thanks to Eileen Jones for her thorough and conscientious work as Clerk for over 21 years. The councillors greatly appreciated her decision to stay on until this meeting in order to facilitate a temporary management framework amongst the members

6. i. The minutes of July 15 were dully accepted and signed.

6. ii Matters arising:

- Need to change item 7 to read *Clive* Jones instead *Kevin* Jones.
- Cllr. Bethan Lawton had made enquiries regarding the responsibilities of maintaining the Graig. Parts have been registered - others have not. BL to contact for more reassurance and confirmation.

7. **Playground**; report A.H.Jones.

- Boundaries and the Pavilion in good order. It was agreed to proceed with all that's necessary to fix the swings small (BL and AHJ)
small seats £ 115 + VAT; 8 Shackle@ £ 3.30 + VAT; 8 cap @ 25p,
4x chain @ £ 30.88 + VAT.

- testing the plug: Uncertainty as to whether Gareth Roberts had been to carry out the test.
- Agreed to pay - Playsafety Ltd. £ 78 (Cheque 461); Water Board £ 219.53 (Cheque 462); Refund the Clerk £ 110 - Electricity April to Sept.'15 + £ 6.99 for a kettl(£116. 99 Cheque 456).

8. **Paths**: Path behind Dolithel and Factory requires attention. Need to contact Liz Haynes

9. **Councillor B. Lawton's Report**: attention was drawn to the 'Her Gwynedd Magazine' noting especially Gwynedd Council's plans to meet the challenge of the cuts. Everyone was encouraged to participate in the negotiations.

10. **Maintenance within the village**: repairs to the Millennium Bench. AHJ to contact Kevin Jones with a view either to buy a new bench or repair the existing one. Bramble clearance is desperately needed.

11. **Public Toilets:** A letter was received from Gwynedd Council stating that the cost of keeping the toilets open over winter would be £ 1,780 + VAT.
    It was unanimously decided that this amount was too high and the proposal was rejected.
    Gwynedd Council to be approached to install new signs on the doors and to provide a constant supply of paper towels and waste bins.
    It was noted that the Cynefin Group will not be offering a grant towards their cost.

12. **Planning Application:** to build a toilet block at Ynysmaengwyn Caravan Park
    Agreed with the application in accordance with the decision of the Site Committee 08/09/15.

13. **One Voice Wales**: Dates of meetings were noted

14. **Job advert for Clerk**: Agreed to pay Cambrian News - £ 119.04. (Cheque 465)

15. **Application to the Community Centre Committee**: The decision of the Site Committee ( 09.08.15) to pay £ 50 rent to the Ganolfan for the use of a storage shed to house Council's property following the Clerk's retirement was confirmed. This to be paid in advance from 01.10.15.

16. **Other expenses :** Agreed to pay the following: -

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hire of Ganolfan | September | £ 12.00 | Cheque 463 |
| Jones & Jones | Maintenance August | £ 113.40 | Cheque 464 |
| Hacker Young | Audit | £ 246.00 | Cheque 466 |

17. **Gwynedd Council:** Received £ 3,504.50 as part of the precept;

18. **Shelter Wales' Appeal**: Left on the table

19. **Any other business**: Noted: roads in the village need sweeping. BL agreed to contact Robart Lewis, Gwynedd Council

Next Council Meeting – Monday, October 19th at 7pm

At the end of the meeting a gift and a bouquet of flowers was presented to Eileen in recognition of all her work over the years. Gwyn, her husband, was also thanked for being so supportive.
The vote of thanks was seconded by Cllr. B Lawton and Ieu Thomas.

Chairman __________________________ Date _____________________

.